



Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Datganiad Sefyllfa am Fioamrywiaeth

Mabwysiedig ar y 12fed Fawrth 2009



Cefndir

Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o fywyd ar y ddaear. Mae'n cynnwys yr amrywiaeth gyfoethog o organebau byw; yr amrywiaeth o fewn rhywogaethau a rhyngddynt, o'r naill gynefin i'r llall a rhwng ecosystemau cyfan.



Mae'r datganiad sefyllfa yn nodi sefyllfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBS Conwy), ei swyddogaeth, ei gyfrifoldebau a'i ddyletswyddau ynglŷn â chadwraeth bioamrywiaeth. Mae'r datganiad hefyd yn nodi sut gall CBS Conwy wneud cyfraniad cadarnhaol i gynnwys cymunedau lleol mewn cadwraeth a gwella bioamrywiaeth leol a byd eang.

Mae'r datganiad sefyllfa yn seiliedig ar ddatganiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WPGA) yn 2002.

Datganiad Sefyllfa am Fioamrywiaeth – Y Deg Rhan

1. Mae bioamrywiaeth yn rhan hanfodol o ansawdd bywyd y cymunedau mae CBS Conwy yn ei wasanaethu ac mae CBS Conwy yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb tuag at gadwraeth a gwella bioamrywiaeth.
2. Mae'r Cyngor yn ystyried cadwraeth bioamrywiaeth fel elfen hanfodol o'i weledigaeth ar gyfer Conwy yn y dyfodol, sydd wrth wraidd **Strategaeth Gymunedol Conwy 2004 - 2014:**
 - Sir o harddwch naturiol eithriadol, a fydd yn parchu, amddiffyn a gwella ei hamgylchedd a'i threftadaeth;
 - Cymuned sy'n cefnogi pobl mewn angen ac sy'n cynnwys croeso cynnes i'r llu o ymwelwyr iddi;
 - Pobl sy'n dathlu amrywiaeth ac sy'n frwd dros sicrhau dyfodol ffyniannus i bawb.
3. I gyflawni ei ymrwymadau bioamrywiaeth, mae CBS Conwy yn ceisio sicrhau bod cadwraeth bioamrywiaeth wedi ei integreiddio i bob cynllun a pholisi perthnasol. Bydd yn sicrhau hefyd fod egwyddorion bioamrywiaeth wedi'u cynnwys ym mhob arfer gwaith perthnasol.
4. Mae CBS Conwy yn gobeithio cwrdd â'i ymrwymadau cyfreithiol ynglyn â bioamrywiaeth mewn modd cadarnhaol, hynny yw, yr awydd i gael y budd gorau o fioamrywiaeth, yn hytrach na chyflawni dim ond yr isafswm ymrwymadau cyfreithiol.
5. Mae CBS Conwy yn cydnabod y gallai gyfrannu at gadwraeth bioamrywiaeth ar sawl lefel gwahanol, ond mae bob amser yn cydnabod bod ganddo weledigaeth unigryw, trwy gynrychioli'r cymunedau lleol a gweithredu fel gwarchodwr bioamrywiaeth leol.
6. Mae CBS Conwy yn croesawu ei swyddogaeth fel partner arweiniol Partneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy. Mae'n cydnabod y swyddogaeth hanfodol sydd ganddo i helpu ei drigolion, yn unigolion ac yn gymunedau, i ddeall beth gallant ei wneud yn lleol ar gyfer bioamrywiaeth byd eang ac mae'n ymrwymedig i gynnwys unigolion a chymunedau lleol cymaint a bo modd wrth weithredu bioamrywiaeth leol.
7. Mae CBS Conwy yn croesawu'r cydweithio rhwng awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol Gogledd Cymru i gefnogi gwaith Cofnod – sef Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru, ac mae'n ymrwymedig i barhau i gefnogi gwaith Cofnod.
8. Mae CBS Conwy yn cydnabod bod angen iddo gyflogi staff proffesiynol gyda chymwysterau priodol, i ddarparu cyngor a chanllawiau yn ôl yr angen, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau a'i ymrwymadau i fioamrywiaeth.
9. Mae CBS Conwy yn ymrwymedig i sicrhau fod ei arferion rheoli tir y mae'n berchen arno, yn cyfrannu at dargedau bioamrywiaeth leol a chenedlaethol.
10. Bydd CBS Conwy, fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yn sicrhau y byddant yn ystyried bioamrywiaeth yn llawn wrth wneud penderfyniadau ynglyn â defnydd tir a datblygiadau.



Datganiad Sefyllfa am Fioamrywiaeth - Chamau Bwriedig

Mae'r papur hwn yn esbonio'n fanylach y rhesymau tu cefn i **Ddatganiad Sefyllfa am Fioamrywiaeth** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBS Conwy) ac ystyr y datganiad hwnnw. Mae deg rhan y datganiad sefyllfa wedi ei hailadrodd, ac yna esboniad ar bob un ohonynt.

1. **Mae bioamrywiaeth yn rhan hanfodol o ansawdd bywyd y cymunedau mae CBS Conwy yn ei wasanaethu ac mae CBS Conwy yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb tuag at gadwraeth a gwella bioamrywiaeth.**


Mae **Strategaeth Amgylchedd Cymru 2006** yn cydnabod "*fod amrywiaeth ein tirluniau a'n morluniau, a'r amrywiaeth o rywogaethau a chynefinoedd, yn gwneud gwahaniaeth pwysig i ansawdd bywyd pobl Cymru*" (tud. 35) ac "*mae awdurdodau lleol yn un o'r prif gyrff sy'n darparu gwasanaethau amgylcheddol ac y mae eu cyfraniad at y gwaith o gyflawni'r Strategaeth hon yn arwyddocaol.*" (tud 61). Mae CBS Conwy, trwy fabwysiadu **Datganiad Sefyllfa am Fioamrywiaeth**, yn cydnabod y swyddogaeth allweddol sydd ganddo i gyflawni'r strategaeth.

Y camau sydd eu hangen

- Polisi yn unig; nid oes angen gweithredu
2. **Mae'r Cyngor yn ystyried cadwraeth bioamrywiaeth fel elfen hanfodol o'i weledigaeth ar gyfer Conwy yn y dyfodol, sydd wrth wraidd Strategaeth Gymunedol Conwy 2004 - 2014:**
 - Sir o harddwch naturiol eithriadol, a fydd yn parchu, diogelu a gwella ei amgylchoedd a'i threftadaeth.
 - Cymuned sy'n cefnogi rhai mewn angen ac sy'n cynnig croeso cynnes i'w lu o ymwelwyr.
 - Pobl sy'n dathlu amrywiaeth ac sy'n frwd dros sicrhau dyfodol ffyniannus bywiog i bawb.

Mae **Strategaeth Gymunedol Conwy** wedi nodi bod parchu, gwella a diogelu'r amgylchedd a'r dreftadaeth, wrth wraidd ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Datblygir hyn ymhellach yng **Nghynllun Corfforaethol 2008-2012** sy'n ymrwymo'r Cyngor i '*ddyfodol cynaliadwy*' a hefyd i '*wella ansawdd ein hamgylchedd*'.

Trwy'r **Datganiad Sefyllfa am Fioamrywiaeth**, mae'r Cyngor yn cydnabod bod cadwraeth bioamrywiaeth yn un o elfennau'r ymrwymadau hyn, ac wrth wneud hynny mae'n cymeradwyo gweledigaeth **Strategaeth Amgylcheddol Cymru 2006**, sy'n nodi "*i gyflawni rheolaeth gynaliadwy a defnyddio'r tir a'r môr i sicrhau y gallant gefnogi ein hanghenion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol tra'n cynnal gweithrediad ecosystem a chynnal eu cymeriad hanfodol a'u harwyddocâd diwylliannol*" (t35) a'u bod hefyd "*yn cyflawni lleoedd o ansawdd uchel i bobl fyw ynddynt. Mae hyn yn golygu amgylchedd adeiledig o ansawdd uchel a chyfle i gael mynediad i fannau gwyrdd a bioamrywiaeth...*" (t41).



Felly, er na chyfeirir yn benodol at gadwraeth bioamrywiaeth yn y **Cynllun Corfforaethol**, mae ei gynnwys yn y **Strategaeth Gymunedol** a'r cysylltiad clir rhwng cadwraeth, bioamrywiaeth a chynladwyedd, yn gwneud cadwraeth bioamrywiaeth yn ganlyniad y gellir ei fesur tuag at gyflawni ymrwymadau'r **Cynllun Corfforaethol**.

Y camau sydd eu hangen

- Polisi yn unig; nid oes angen gweithredu

3. **I gyflawni ei ymrwymadau bioamrywiaeth, bydd CBS Conwy yn ceisio sicrhau fod cadwraeth bioamrywiaeth wedi ei hintegreiddio i bob cynllun a pholisi perthnasol. Bydd yn sicrhau hefyd fod egwyddorion bioamrywiaeth wedi'u cynnwys ym mhob arfer gwaith perthnasol.**

Gosododd **Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (ANCG) 2006** ymrwymiad cyfreithiol ar bob corff cyhoeddus i gynnwys Bioamrywiaeth fel "thema gyffredinol" ym mhob un o'u meysydd gweithredu (y 'Ddyletswydd Bioamrywiaeth').

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau CBS Conwy yn effeithio ar bob lefel o fioamrywiaeth, o'r lleol i'r byd eang. Felly nid rhywbeth i'r ecolegwyr a gweithwyr proffesiynol eraill mo cadwraeth bioamrywiaeth, ac mae'n bwysig fod pob aelod o'r staff yn cydnabod fod ganddynt gyfraniad i'w wneud, boed fawr neu fach.

Er mwyn hwyluso ymwybyddiaeth am fioamrywiaeth yn ei weithgareddau, mae CBS Conwy yn cydnabod fod angen mabwysiadu polisiau a fydd yn annog cadwraeth a gwella bioamrywiaeth, yn ogystal ag ymchwilio hefyd i weld a oes angen newid arferion gwaith ym mhob maes gwasanaeth.

Mae gan rai adrannau, fel y cyn Adran Gynllunio, draddodiad hir o ystyried effaith bioamrywiaeth yn eu gwaith, yn bennaf oherwydd darpariaethau **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990** a deddfau ar ôl hynny, a chanllawiau'r llywodraeth ar gyfer awdurdodau cynllunio yn dilyn hynny. Mae ystyried effaith ar fioamrywiaeth yn newydd i adrannau eraill, ac efallai bydd angen rhagor o hyfforddiant a chanllawiau arnynt.

Mae mabwysiadu'r **Datganiad Sefyllfa am Fioamrywiaeth** ynddo'i hun yn gam pwysig i ddangos ymrwymiad i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth.

Y camau sydd eu hangen

- Gwella gwybodaeth aelodau a staff am y 'Ddyletswydd Bioamrywiaeth';
- Canfod holl feysydd gwasanaeth sy'n gallu effeithio ar fioamrywiaeth;
- Ymchwilio i arferion gwaith sy'n gallu effeithio ar fioamrywiaeth;
- Llunio unrhyw newidiadau i arferion gwaith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r 'Ddyletswydd Bioamrywiaeth';
- Canfod costau unrhyw gynigion, a chostau cynyddol yn deillio hynny, a nodi a oes unrhyw ffynonellau arian allanol ar gael;
- Cynnwys meini prawf bioamrywiaeth yn y polisi datblygu a phrosesu rheoli prosiectau corfforaethol.



4. **Mae CBS Conwy yn gobeithio cwrdd â'i ymrwymiadau cyfreithiol ynglyn â bioamrywiaeth mewn modd cadarnhaol, hynny yw, yr awydd i gael y budd gorau o fioamrywiaeth, yn hytrach na chyflawni dim ond yr isafswm ymrwymiadau cyfreithiol.**

Ers 1949 mae deddfwriaeth wedi gosod swyddogaeth sylweddol ar awdurdodau lleol mewn cadwraeth natur ac, yn ddiweddarach, i gynnal bioamrywiaeth. Mae'r Deddfau perthnasol yn cynnwys:

- **Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949**
- **Deddf Cefn Gwlad 1968**
- **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**
- **Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000**
- **Deddf Llywodraeth Leol 2000**
- **Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC)2006**
- **Cyfarwyddebau Ewropeaidd amrywiol a weithredwyd trwy Reoliadau Prydain Fawr**

Mae cyfarwyddebau'r llywodraeth hefyd yn nodi sut dylid ymdrin â bioamrywiaeth mewn sefyllfaoedd penodol, fel canllawiau polisi cynllunio (**Polisi Cynllunio Cymru 2002**).

Y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau ein bod yn cyflawni ein holl ymrwymiadau cyfreithiol yw cynnwys arfer bioamrywiaeth da ym mhob maes gwasanaeth. Bydd hyn yn cyflawni'r gofynion cyfreithiol, a hefyd yn delio â rhai o'n dyheadau i gyfrannu tuag at ddyfodol cynaliadwy, fel y nodwyd yng **Nghynllun Corfforaethol CBS**. Gallai arfer da fel hyn, er enghraifft, gynnwys tirweddu ar gyfer bywyd gwyllt o amgylch datblygiadau newydd y Cyngor, gan alluogi llystyfiant naturiol i gytrefu rhannau uchaf y traethau, a defnyddio llai o fawn fel cyfrwng tyfu ym mharciau a gerddi'r Cyngor.

Y camau sydd eu hangen

- Canfod cyfle i wella bioamrywiaeth y gellir ei gyflawni'r un pryd â darparu gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Canfod cost unrhyw gynigion, a phetai hynny'n cynyddu'r costau, canfod a oes ffynonellau arian allanol ar gael.

5. **Mae CBS Conwy yn cydnabod y gallai gyfrannu at gadwraeth bioamrywiaeth ar sawl lefel gwahanol, ond mae bob amser yn cydnabod bod ganddo weledigaeth unigryw, trwy gynrychioli'r cymunedau lleol a gweithredu fel gwarchodwr bioamrywiaeth leol.**

Ers cynyddu'r proffil bioamrywiaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â chynyddu ymwybyddiaeth am faterion perthnasol, fel newid hinsawdd a chynladwyedd, mae disgwyliaid trigolion wedi cynyddu'n unol â hynny, sef y dylai llywodraeth, yn lleol ac yn genedlaethol, wneud rhywbeth. Mae CBS Conwy yn ystyried Dyletswydd Bioamrywiaeth NERC a drafodwyd ym mhwynt 3 uchod nid yn unig fel ymrwymiad cyfreithiol, ond hefyd fel modd i sicrhau fod dyheadau pobl leol i gyfrannu at atal colli bioamrywiaeth yn cael eu diwallu wrth i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau.

Mae CBS Conwy wedi rhoi cyngor a chanllawiau i drigolion am reoli tir, gan gynnwys bioamrywiaeth, ers nifer o flynyddoedd, er enghraifft, trwy gynllun Coed Cymru. Trwy ddefnyddio rhaglenni ariannu Ewropeaidd, gweithredwyd sawl cynllun gyda chymhorthdal a Phrosiect Gwella Cynefinoedd Conwy, sydd



wedi ein galluogi i gynnal nifer fawr o brosiectau lleol ar dir preifat ledled y Fwrdeistref Sirol, ac nid oes prinder galw amdanynt.

Y camau sydd eu hangen

- Dim camau newydd;
- Parhau gyda phrosiectau a nodwyd yn y **Cynllun Datblygu Gwledig**

6. Mae CBS Conwy yn croesawu ei swyddogaeth fel partner arweiniol Partneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy. Mae'n cydnabod y swyddogaeth hanfodol sydd ganddo i helpu ei drigolion, yn unigolion ac yn gymunedau, i ddeall beth gallant ei wneud yn lleol ar gyfer bioamrywiaeth byd eang ac mae'n ymrwymedig i gynnwys unigolion a chymunedau lleol cymaint a bo modd wrth weithredu bioamrywiaeth leol.

Mae CBS Conwy, fel pob Awdurdod Cynllunio arall yng Nghymru, wedi cymryd camau arweiniol i gydlynu cadwraeth bioamrywiaeth trwy'r **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI)**. Mae'r gwaith hwn, gyda chymhorthdal oddi wrth Cyngor Cefn Gwlad Cymru, wedi estyn swyddogaeth y Cyngor y tu hwnt i'w ddarpariaeth gwasanaeth ei hun, i weithio mewn partneriaeth gydag eraill er mwyn cyflawni camau bioamrywiaeth a nodwyd yn genedlaethol ac yn lleol. Mae'r broses yn cynnwys sawl sefydliad, statudol a gwirfoddol, ond mae cynnig cyfleoedd i unigolion fod ynghlwm ag ystod eang o brosiectau, yr un mor bwysig. Mae gan y Cyngor swyddogaeth ganolog i gydlynu'r gwaith hwn, trwy gyflogi swyddog prosiect CGBLI penodol, a dyma sut cyflawnwyd Prosiect Gwella Cynefinoedd Conwy, a gostiodd £400 000, y cyfeiriwyd ato yn 5 uchod.

Yn ogystal â gweithredu camau ymarferol i ddiogelu bioamrywiaeth, mae gan y CGBLI swyddogaeth hanfodol i roi gwybod i drigolion Conwy a'u haddysgu am fioamrywiaeth a'r camau y gall pawb eu gweithredu i'w diogelu. Gwneir hyn trwy ddigwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus, yn ogystal â gweithio gydag ysgolion a chreu deunyddiau dysgu.

Y camau sydd eu hangen

- Dim camau newydd;
- Parhau gyda'r prosiectau a nodwyd yn CGBLI Conwy.

7. Mae CBS Conwy yn croesawu'r cydweithio rhwng awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol Gogledd Cymru i gefnogi gwaith Cofnod ac mae'n ymrwymedig i barhau i gefnogi gwaith Cofnod.

Mae Cofnod yn un o Ganolfannau Cofnodion Lleol, sy'n rhwydwaith ledled Prydain Fawr, sydd yn ganolbwynt lleol ar gyfer casglu, rheoli a darparu data amgylcheddol. Ei nod yw darparu mynediad i'r wybodaeth orau bosibl i gynorthwyo cadwraeth bioamrywiaeth yng Ngogledd Cymru. Mae Cofnod yn sefydliad 'nad yw'n gwneud elw', gyda'r rhan fwyaf o gostau ei gynnal a'i gadw yn dod oddi wrth y partneriaid y mae CBS Conwy, ynghyd ag awdurdodau lleol eraill, yn un ohonynt. Ers Ebrill 2007, mae Cofnod wedi darparu nifer o wasanaethau i'w partneriaethau cefnogol, sefydliadau masnachol a chofnodwyr gwirfoddol.

Y prif wasanaeth y mae Cofnod yn ei ddarparu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw chwilio am ddata amgylcheddol i gefnogi gwneud penderfyniadau, fel creu cynllun datblygu, rheoli datblygu, gwelliannau priffyrdd, adnewyddu



adeiladau, ac yn y blaen. Mae cefnogi canolfannau cofnodion lleol a defnyddio data o ansawdd da i gefnogi gwneud penderfyniadau gweithredu, yn dangos bod y Cyngor yn cydymffurfio â Dyletswydd Bioamrywiaeth NERC (*DEFRA a Llywodraeth Cynulliad Cymru Mai 2007, Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Weithredu'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth*, tudalennau. 5, 28 a 42).

Y camau sydd eu hangen

- Dim camau newydd;
- Parhau i gefnogi a defnyddio Cofnod

8. Mae CBS Conwy yn cydnabod bod angen iddo gyflogi staff proffesiynol gyda chymwysterau priodol, i ddarparu cyngor a chanllawiau yn ôl yr angen, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau a'i ymrwymadau i fioamrywiaeth.

Mae CBS Conwy ar hyn o bryd yn cyflogi un uwch swyddog cefn gwlad / ecolegydd sy'n gweithio 0.6, ac un swyddog prosiect CGBLI amser llawn. Dyma'r unig swyddogion sy'n delio'n benodol â materion bioamrywiaeth. Argymhellion Cynulliad Cymru yw y dylai fod o leiaf dau swyddog amser llawn i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth (*Jane Davidson, Gweinidog yr Amgylchedd, Cynladwyedd a Thai, Adroddiad Penderfyniad, 6 Chwefror 2007.*) Mae CBS Conwy felly'n cyflogi 80% o'r lleiafswm staff a argymhellir. Mae gan y swyddogion ddyletswyddau ychydig yn wahanol yn y Cyngor. Disgrifir rôl y swyddog prosiect CGBLI yn 6 uchod. Mae'r ecolegydd yn bennaf gyfrifol am faterion bioamrywiaeth ac mae'n treulio rhan fwyaf o'i hamser yn delio â rheoli datblygiadau a materion cynllunio eraill, yn ogystal â rhoi arweiniad i'r Cyngor ynglyn â delio â bioamrywiaeth yn gorfforaethol. Mae'r ddau swyddog yn cynghori adrannau sut gallant gyflawni cadwraeth bioamrywiaeth mewn prosiectau a darparu gwasanaethau. Mae'r ddwy swydd hefyd yn swyddi rheng flaen gyda nifer o alwadau a chysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd ar nifer o faterion bioamrywiaeth.

Mae'r ddwy swydd bioamrywiaeth wedi'u lleoli yn y Gwasanaeth Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy'r Adran Gwasanaethau Isadeiledd, ac mae rhan helaeth o'u gwaith yn gysylltiedig ag aelodau eraill y tîm hwnnw. Mae staff eraill y Gwasanaeth Cefn Gwlad hefyd yn cyfrannu rhan helaeth o'u hamser i gyflawni cadwraeth bioamrywiaeth, yn enwedig trwy reoli 10 Gwarchodfa Natur y Cyngor a 13 Safle Cefn Gwlad, ond nid yw eu llwyth gwaith yn caniatáu iddynt ddarparu'r elfennau cynghori gwaith bioamrywiaeth.

Y camau sydd eu hangen

- Dim gweithredu newydd
- Parau i gyflogi gweithwyr bioamrywiaeth proffesiynol

9. Mae CBS Conwy yn ymrwymedig i sicrhau fod ei arferion rheoli tir y mae'n berchen arno yn cyfrannu at dargedau bioamrywiaeth lleol a chenedlaethol

Mae CBS Conwy yn berchen ar ardaloedd sylweddol o gynefinoedd sy'n bwysig o ran bioamrywiaeth yn genedlaethol, fel y Gogarth, Bryn Euryn, Traeth Lafan ac ardaloedd eraill, a thrwy reoli tiroedd fel hyn, mae'n gwneud cyfraniad sylweddol i'w dargedau bioamrywiaeth cenedlaethol (mae gan rai safleoedd fel y Gogarth a Thraeth Lafan ddynodiadau rhyngwladol). Mae nifer o'r rhain, a'r rhai a nodwyd eu bod yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran cadwraeth bioamrywiaeth yn lleol, wedi cael eu dynodi'n warchodfeydd natur lleol statudol



gan y Cyngor, ac felly maent yn cyflwyno'r neges gadarnhaol ynglyn â'r gwerth y mae'r Cyngor yn ei roi iddynt. Mae rheoli ar gyfer bioamrywiaeth yn creu manteision ychwanegol buddion amgylcheddol ehangach i'r gymuned, gwella mynediad i ardaloedd adloniadol a darparu cyfleusterau cymunedol ac addysgol. Mae'r Cyngor hefyd wedi hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rheoli sy'n ystyriol o fioamrywiaeth trwy reoli mannau gwyrdd trefol a thiroedd ysgol, i gyd-fynd â hynny, a rheoli ymylon ffyrdd yn sensitif.

Y camau sydd eu hangen

- Sicrhau fod cynlluniau rheoli'n ystyried rhywogaethau a chynefinoedd Blaenoriaeth Prydain Fawr, Cymru a'r CGBLI;
- Parhau i weithredu rheolaeth sydd yn ystyriol o fioamrywiaeth lle bynnag bo modd (gweler 4 hefyd).

10. Bydd CBS Conwy, fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yn sicrhau y byddant yn ystyried bioamrywiaeth yn llawn wrth wneud penderfyniadau ynglyn â defnydd tir a datblygiadau

Mae CBS Conwy wedi ystyried cadwraeth natur (ac felly bioamrywiaeth) ers cryn amser wrth wneud penderfyniadau cynllunio ac mae pwysigrwydd bioamrywiaeth wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Mae cyfeiriadau at gadwraeth natur/bioamrywiaeth yn ymddangos yn y Cynlluniau Datblygu Lleol a'r **Cynllun Datblygu Lleol** newydd, sydd ar fin cael ei gyhoeddi.

Mae canllawiau polisi cynllunio'r llywodraeth (yn bennaf **Polisi Cynllunio Cymru 2002** a'r **Nodyn Cyngori Technegol Drafft 5 – Cadwraeth Natur a Chynllunio Ionawr 2006**) yn dangos pa mor bwysig yw materion bioamrywiaeth i'r llywodraeth.

Mae **CGBLI Conwy** a'r **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol** yn darparu fframwaith i'r Awdurdod Cynllunio ystyried effeithiau cynigion datblygu ar fywyd gwylt (gan gynnwys rhywogaethau sy'n cael eu diogelu yn arbennig) a safleoedd dynodedig, tra bo defnyddio'r data amgylcheddol a gyflwynwyd gan Cofnod yn sicrhau ein bod yn ystyried data gwybyddus. Ond mae angen casglu gwybodaeth ar gyfer nifer o benderfyniadau cynllunio a bod yr ymgeisydd yn cyflwyno'r wybodaeth honno, fel petai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen, ni fyddai'n cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth.

Mae canllawiau newydd (2008) ar sut dylid ystyried rhywogaethau sy'n cael eu diogelu yn Ewrop wrth wneud penderfyniadau ynglyn â rheolaeth datblygu, wedi arwain at Awdurdod Cynllunio Lleol Conwy yn llunio protocolau fel canllawiau i ymgeiswyr a chynllunwyr yn ystod y broses hon.

Y camau sydd eu hangen

- Parhau i lunio protocolau i sicrhau fod y broses rheolaeth datblygu, yn ystyried bioamrywiaeth yn llawn;
- Datblygu canllawiau lleol ar gyfer bioamrywiaeth fel rhan o'r cais 1APP bwriedig yn unol â chanllawiau cenedlaethol ar ymgynghori, ac yn y blaen;
- Sicrhau bod materion bioamrywiaeth yn cael eu hystyried yn briodol yn y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar fin cael ei gyhoeddi;
- Darparu canllawiau clir i ddatblygwyr ac eraill, trwy lunio canllawiau cynllunio atodol ar fioamrywiaeth.

